

Cadeiryddion Cyfreithiol sy'n Derbynn Ffi am gyflawni gwaith i Banel Dyfarnu Cymru

Nifer y swyddi gwag: dwy

Ffi: £410 y diwrnod

Lleoliad: Cymru

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (y Comisiwn) wedi cael cais i ganfod dau ymgeisydd i'w hargymell ar gyfer swydd Cadeirydd Cyfreithiol sy'n Derbynn Ffi i gyflawni gwaith i Banel Dyfarnu Cymru (y Panel).

Mae'r Panel yn driwiwnlys annibynnol. Ei swyddogaeth yw penderfynu a yw aelodau etholedig a chyfetholedig cynghorau sir, bwrdeistref sirol a chymuned, yn ogystal ag awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol Cymru, wedi torri cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.

Er mai Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r triwiwnlys, mae ei aelodau a'i benderfyniadau yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

Pwy all wneud cais

Mae'r cynnig hwn ar agor i gyfreithwyr a bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd ag o leiaf 5 mlynedd o brofiad cyfreithiol ar ôl cymhwyso; eiriolwyr a chyfreithwyr yn yr Alban sydd wedi sefyll am o leiaf 5 mlynedd; a bargyfreithwyr a chyfreithwyr yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi sefyll am o leiaf 5 mlynedd.

Hefyd, rhaid i ymgeiswyr gael gwybodaeth, neu allu dangos eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn gyflym am y gyfraith ar gyfer safonau statudol o ran ymddygiad mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

Yn ogystal â hynny, dylai ymgeiswyr allu cynnig gwasanaeth am gyfnod rhesymol, o leiaf 4 blynedd fel arfer, cyn cyrraedd oed ymdddeol.

Gwybodaeth am y triwiwnlys

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer awdurdod yn darparu cyfres o safonau i'w aelodau y mae disgwyl iddynt lynu wrthynt mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r Cod Ymddygiad yn cynnwys amrywiol ofynion o ran sut dylai aelodau ymddwyn, yn ogystal â gofynion o ran cydraddoldeb, buddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu, gwybodaeth gyfrinachol, adnoddau eu hawdurdod a'r angen i osgoi dwyn anfri ar eu swyddfa neu awdurdod.

Mae gan y Panel ddwy swyddogaeth statudol yng nghyswllt torri'r Cod Ymddygiad:

- ffurfio triwiwnlys achos neu achos interim i ystyried cyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ar ôl ymchwilio i honiadau bod aelod wedi methu cydymffurfio â Chod Ymddygiad ei awdurdod
- ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdod lleol yn nodi eu bod wedi torri'r Cod Ymddygiad

Mae'r Panel yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan y Panel yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn.

Mewn gwrandawriad y Panel bydd cadeirydd sy'n gyfreithiol gymwys a dau aelod lleyg. Y cadeirydd sy'n gyfrifol am ysgrifennu penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen. Rhaid iddynt sicrhau eu bod yn dilyn y broses gyfreithiol gywir a bod y gyfraith yn cael ei defnyddio'n gywir yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd wedi dod i law.

Fel arfer, caiff gwrandawiadau'r Panel eu cynnal yn gyhoeddus ac mewn lleoliad sy'n agos at ardal yr awdurdod.

Gwybodaeth am y penodiadau

Mae'r tribiwnlys yn cynnwys Cymru gyfan. Rhaid i ymgeiswyr allu teithio'n annibynnol ar hyd a lled Cymru a bod yn barod i aros dros nos pan fydd angen. Bydd y tribiwnlys yn talu costau rhesymol am deithio a chynhaliaeth.

Er nad yw'n bosib cynnig nifer pendant o ddiwrnodau eistedd, dylai ymgeiswyr allu cynnig o leiaf 10 diwrnod y flwyddyn i fusnes y tribiwnlys.

Paratoi eich cais

Drwy'r broses dewis gyfan, caiff ymgeiswyr eu hasesu gan ddefnyddio [fframwaith cymhwysedd](#) wedi'i deilwra'n benodol i rôl Cadeiryddion Cyfreithiol sy'n Derbyn Ffi am gyflawni gwaith i Banel Dyfarnu Cymru. Mae'r fframwaith yn rhestru'r ffordd y mae unigolyn yn dangos y sgiliau a'r gallu angenrheidiol wrth weithio'n effeithiol yn ei swydd.

Fel rhan o'ch cais, bydd angen i chi ddarparu, mewn dim mwy na 250 gair i bob cymhwysedd, enghreifftiau penodol sy'n dangos sut mae eich profiadau yn eich gwneud chi'n addas ar gyfer y rôl. Mae rhagor o wybodaeth am [gwblhau'r hunanasesiad](#) a [dewis yr enghreifftiau gorau](#) ar gael ar wefan y Comisiwn. Fe'ch cynghorir i ddechrau paratoi eich enghreifftiau ymlaen llaw, gan neilltuo digon o amser i ddatblygu enghreifftiau perthnasol sy'n dangos pa mor addas ydych chi ar gyfer y swydd.

Hefyd, gallwch [greu cyfrif ar-lein](#) cyn i chi ymgeisio. Yn system ymgeisio ar-lein y Comisiwn, mae angen i bob ymgeisydd greu cyfrif cyn ymgeisio am swydd farnwrol. Bydd eich cyfrif yn cynnwys eich proffiliau personol, cymeriad ac amrywiaeth. Caiff y wybodaeth hon ei storio ar y system felly, os byddwch yn ymgeisio am swydd arall yn y dyfodol, dim ond diweddar'ch manylion y bydd angen i chi ei wneud. Bydd hyn yn gwneud y broses ymgeisio yn haws ac yn gyflymach.

[Cofrestrwch](#) i gael hysbysiadau drwy e-bost am hynt yr ymarfer hwn tan y bydd yn cael ei lansio.